Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 16 Rhagfyr 2014

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. Parry, G. C. Jones, A. Mummery, Mervyn Jones, H. Huws, D. Williams, Meirion Jones, B. Jones, A. Thomas,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: Anwen Le Cras (Swyddog Cyllid), A. Williams, E. Parry, P. Roberts,

2. Datganiadau Diddordeb. Mi ddatganwyd diddordeb gan Meirion Jones yn eitem 9.2 ar yr agenda.

3. Cyfrifon mis Rhagfyr 2014
3.1 Ni dderbyniwyd y cyfrifon yn absenoldeb y swyddog cyllid.
3.2 A. Mummery yn cynnig, Meirion Jones yn eilio, pawb yn cytuno bod trefniadau yn cael ei gwneud i arwyddo a talu y taliadau sefydlog.

4. Materion y Cyngor Sir
4.1 Meirion Jones yn cadarnhau fod cyllideb y Cyngor Sir allan am ymgynghoriad. Nodwyd bod bygythiad I swyddi yn y Ganolfan Gwybodaeth Twristiaid yn Pringles.
4.2 A. Mummery yn cadarnhau bod y tri Cynghorwr Sirol wedi cyfarfod gyda Swyddogion Adran Addysg y Cyngor Sir ynglŷn a'r Ysgol Feithrin. Mae llythyr ar ei ffordd I'r Cyngor Bro ynglŷn a'r achos.
4.3 Gweithio'n Gallech - Meirion Jones yn cadarnhau fod Aelodau Plaid Cymru wedi galw cyfarfod yn dangos pryder am fwriad y Cyngor Sir. Nodwyd fod pleidlais I weld os oes cyllideb I Gweithio'n Gallech yn cael ei wneud yn Ionawr.
4.4 Cyllideb – A. Mummery yn nodi fod Ieuan Williams wedi cynnig dod I gyfarfod y Cyngor Bro I drafod y gyllideb. Meirion Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio bod y Cyngor Bro yn rhoi cynnig iddo ddod I gyfarfod Ionawr.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Hydref 2014
5.1 H. Huws yn nodi cywiriad I eitemau 3.2, 12.2 a 12.4
5.2 Wedi y cywiriadau G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi
6.2 Ymgyrch codi arian – Cyfarfod agored wedi ei drefnu ar gyfer 13 Ionawr 2015. A. Mummery, A. Jones a B. Jones wedi cyfarfod gyda Chris Wilcock o'r Bwrdd Iechyd ynglŷn a parcio yn y Canolfan Iechyd. Y bwrdd Iechyd am yrru llythyr I fewn yn gofyn os geith staff barcio yn maes parcio y Neuadd Goffa.
6.3 CCTV – A. Mummery am ofyn I Guy Blackwell ddod I gyfarfod y Cyngor Bro yn Chwefror I drafod costau ac yn y blaen.
6.4 Twr Marcwis wedi cau – Clerc wedi gofyn I Jones Peckover am gyfarfod, dim ymateb hyd yn hyn
6.5 Cerrig beddi – Carreg bed wedi cael ei atgyweirio. Diolchwyd I G. Parry am weithredu.
6.6 Plac ar hen dy Kyffin Williams – Meirion wedi trafod gyda Pat West, mae'n cadarnhau bod dim arian I osod plac a mai fel rheol yn lle ganwyd pobl mae gosod un. Nodwyd mai Stad Marcwis sydd yn berchen y ty, Meirion Jones am siarad gyda asiant Jones Peckover am yr achos ac am Twr Marcwis.
6.7 Maes chwarae – G. C. Jones wedi archebu y defnyddiau I drwsio yr offer ac mae Andre Le Cras am weithredu.
6.8 Maes parcio y gors – Dau bris wedi ei dderbyn, disgwyl am ymateb gan Hogans I allu cymharu ai rhoi I'r gyllideb.
6.9 Coed y Fynwent – G. Parry yn cadarnhau fod un coeden wrth y on wedi ei weithredu, ond dim llawer arall I'w weld wedi cael sylw.
6.10 Gwely blodau – A. Mummery wedi trafod gyda Gwenda Williams, a mi fyddai soil survey yn costio gormod.
6.11 Bin tu allan I'r Neuadd Goffa – Dal heb ei symud, clerc I wthio ar y Cyngor Sir I weithredu
6.12 Paentio y Neuadd Goffa – Asesiad Risg wedi ei wneud ac wedi ei rhoi I Anwen. Nodwyd hefyd y pryder am ddiffyg diweddariad am achosion ariannol gan fod dipyn yn ddyledus I'r Cyngor Bro.

7. Cadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 02 Rhagfyr 2014

7.1 Nodwyd cywiriad I eitem 3.1
7.2 Wedi cywiro, A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

8. Materion yn Codi
8.1 Addurniadau Nadolig – J. Roberts yn nodi bod y mater wedi ei drafod yn gynt yn y flwyddyn yn Cyfarfod y Cyngor Bro. G. C. Jones yn cynnig, A. Mummery yn eilio bod pwyllgor amgylchedd ac eiddo yn cymryd drosodd y trefniadau gyda cyllideb o £500. Argymell l'r pwyllgor cyllid bod y swm yn dderbyniol pan fydd yn cael ei gysidro.
8.2 Baneri – Cyngor Sir wedi gwrthod rhoi caniatâd. Clerc sôn wrth y Cyngor Sir bod pentrefi eraill gyda baneri ac gofyn iddynt ail-gysidro.
8.3 Beinciau – G. C. Jones wedi cael prisiau am beinciau newydd wedi ei gwneud o ddefnyddiau wedi ail-gylchu. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio bod y Cyngor Bro yn archebu un ohonynt l'w gosod yn y parc.

9. Ceisiadau Cynllunio
9.1 31C319A – Cais I benu a oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer lleoliad ac edrychiad mast telecyfathrebu ac offer cysylltiedig yn lle'r un presennol yn Lon Dyfnia, Llanfairpwll – Dim sylw
9.2 Nodwyd bod Meirion Jones yn gadael yr ystafell cyn I'r eitem cael ei drafod
31C422 – Cais llawn am addasu ag ehangu gan gynnwys codi uchder y tô I greu llawr cyntaf yn Ceris, Llanfairpwll – Dim sylw.
Nodwyd bod Meirion Jones syn dod yn ol I fewn wedi darfod trafod yr eitem.
9.3 31C419A – Cais amlinellol gyda holl faterion wedi ei cadw yn ôl ar gyfer codi 2 annedd ar dir yn Hafod y Bryn, Llanfairpwll – Dim sylw

10. Gohebiaeth
10.1 Llywodraeth Cymru – Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (CYFFORDD 8, CYFNEWIDFA PAN LODGE, YNYS MON I GYFFORDD 9, TREBORTH) – Clerc I ofyn am blan yn dangos terfynau y cyfyngiadau cyflymder newydd ac ei ddosbarth I bawb.
10.2 Undeb Amaethwyr Cymru (llythyr 3ydd Rhagfyr 2014) – I'w rhoi I'r Pwyllgor Cyllid
10.3 Cyngor Sir Ynys Môn – Penderfyniadau Cynllunio – Dim sylw
10.4 Cymdeithas Strôc – Apêl Nadolig 2014 - I'w rhoi I'r pwyllgor Cyllid

11. Unrhyw fater arall
11.1 H. Huws yn nodi bod y Grid Cenedlaethol am wneud cyhoeddiad yn Ionawr am y peilonau
11.2 G. C. Jones yn nodi ei fod o a H. Huws wedi mynychu cyfarfod Un Llais Cymru yn Llangefni. Nodwyd fod angen I'r Cyngor Bro ystyried y Cynllwyn Datblygu Lleol gan fod disgwyl I fwy o gyfrifoldeb ddisgyn ar Gynghorau Cymuned wedi iddo ei weithredu. H. Huws yn cynnig bod y Cynllun yn cael ei drafod fel eitem gan y Cyngor Bro er mwyn rhoi ymateb erbyn Mawrth 2015.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 27 Ionawr 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd …… (Cadeirydd) ……Dyddiad